# CYNGOR TREF DOLGELLAU

Cofnodion o Bwyllgor Cyngor Tref Dolgellau a gynhaliwyd ar nos Fawrth, Ionawr 7, 2025 yn y Llyfrgell Rydd, Dolgellau am 7.00 o'r gloch.

**PRESENNOL:** Y Cynghorydd Ywain Myfyr (Maer)
Y Cynghorydd Bob Gunton (Dirprwy Faer)
Y Cynghorwyr John Cadwaladr, Nia Evans, Jo Checkley, Dyfrig Siencyn, Sion Edwards, Branwen Rhys Dafydd, Nia Wyn Evans, Branwen Rhys Dafydd, Jessica John
Mr Rhys Williams – Clerc

**C.65.2024-2025 SESIWN CYHOEDDUS**

Dim aelod o'r cyhoedd yn bresennol.

**C.66.2024-2025 YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth y Cynghorydd Llinos Rowlands, Ray Peters a Peter Jones.
Croesawyd yr aelod newydd, Jessica John a dymunwyd Blwyddyn Newydd Dda i bawb.

**C.67.2024-2025 DATGANIADAU O DDIDDORDEBAU PERSONOL YN DEILLIO O UNRHYW WYBODAETH YN YMWNEUD A'R CYFARFOD**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau.

**C.68.2024-2025 I DDERBYN A CHADARNHAU COFNODION O'R CYFARFOD A GYNHALIWYD AR RAGFYR 3, 2024**

Derbyniwyd a chadarnhawyd y cofnodion uchod.

**C.69.2024-2025 MATERION YN CODI O'R COFNODION**

1.1 **MATERION A GODWYD O GOFNODION BLAENOROL**

1. **Coed Ffynnon Fair**
   **Adroddwyd y bydd y contractwr David Bradley yn ymweld â'r goedlan yfory i drefnu ac ymdrin â gwaith clirio coed.**
   **Penderfynwyd:** Derbyn y wybodaeth.

2. **Gofeb Barhaol - Llyn Penmaen**
   **Cyflwynwyd:** Adborth gan y Cynghorydd Nia Evans yn adrodd bod trafodaethau gyda'r Parc Cenedlaethol yn parhau a bod dyfynbris am gofeb barhaol ar waith. Bydd cais am gyngor o flaen cyflwyno cais cynllunio yn cael ei baratoi a thrafodaeth ar steil y llythrennau ar y gofeb yn cael ei drafod gyda'r Parc Cenedlaethol.
   **Penderfynwyd:** Derbyn y wybodaeth gyda diolch.

3. **Problemau Parcio rhwng banc HSBC a Siop Hosbis yn y Sgwâr**
   **Cyflwynwyd:** Dim cynnydd ar y mater yma ar hyn o bryd.
   **Penderfynwyd:** Derbyn y wybodaeth. Cadw ar yr agenda.

4. **Rhaglen Ymrwymiad Cymunedol**
   **Cyflwynwyd: Diweddariad ar sawl pwynt gweithredu o gyfarfod mis Hydref 2023 y Cyngor megis:**

i) **Trefnu ymchwiliad i sefydlu Bwrdd Arddangos penodol i'r Cyngor:**

**Cyflwynwyd:** Adborth gan y Clerc ynglyn ac ail gontractor sydd wedi gofyn am fanylion manwl pellach.
**Penderfynwyd:** Derbyn y wybodaeth. Y Maer i weithredu.

**Materion pellach yn codi:**

v) **Parc Sglefrolio**
Dim i'w adrodd ar y funud.
**Penderfynwyd**: Derbyn y wybodaeth.

vi) **Seti Cyhoeddus – adolygiad**
**Cyflwynwyd:**
Archebwyd 10 seti newydd o gwmni Wynnstay. Y cwmni wedi cytuno i'w storio dros dro. Bydd y seti yn cyrraedd erbyn Ionawr 31, 2025. Y contractwr R.W. Britland i fod yn gyfrifol am eu gosod.

vii) **Trwydded Adloniant Cyhoeddus i'r Sgwar**
Adroddwyd y bydd sylw i gwblhau'r drwydded yn ystod mis Chwefror a Mawrth 2025.
**Penderfynwyd**: Derbyn y wybodaeth.

viii) **Cerbyd yn y Lawnt**
Adroddwyd drwy'r Cynghorydd Dyfrig Siencyn fod y tir lle mae'r cerbyd ym mherchnogaeth Cymdeithas Tai ADRA. Diweddariad pellach i ddilyn.

ix) **Sefyllfa gwteri a draeniau oddi amgylch y dref**
**Cyflwynwyd:** Adborth o Gyngor Gwynedd yn egluro y bydd sylw yn cael ei rhoi i'r sefyllfaoedd mwyaf problemus pan yn bosib gyda'r gobaith hefyd i ymgymryd â gwaith pellach yn ystod 2025/2026.
**Penderfynwyd**: Derbyn y wybodaeth ac i fonitro'r sefyllfa.

x) **Rheolau parcio yn y dref gan gynnwys Maes Parcio y Marian**
**Cyflwynwyd:** Adborth o Gyngor Gwynedd yn egluro'r rheolau uchod yn deillio o ymholiad y Cyngor Tref ynglŷn â chanran uwch o dicedi cosb yn cael eu codi ar gerbydau yn ystod digwyddiadau e.e. gemau chwaraeon ac ati.
**Penderfynwyd:** Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn i ddilyn i fyny ar y mater.

**C.70.2024-2025 SEFYLLFA ARIANNOL**

Derbyniwyd y sefyllfa ariannol gan y Clerc. Adborth oddi wrth Archwilio Cymru ar archwiliad cyfrifon 2023-2024 wedi ei dderbyn. Rhai materion angen sylw. Y Clerc i drefnu cyfieithiad o'r materion yma i'r Saesneg i rannu gyda phob aelod.
Cyfarfod gyda Banc HSBC wedi ei gynnal drwy'r Clerc. Ffurflen gais am mandate Bancio ar-lein wedi ei dderbyn bellach ar ôl dyfynnu pa fersiwn mandate oedd angen ar gyfer Cynghorau Cymuned.

**Penderfynwyd**: Pennu yr aelodau canlynol ar gyfer y Mandate dan sylw, megis: Bob Gunton, John Cadwaladr, Peter Jones, Jessica John, Nia Wyn Evans a'r Clerc fel prif defnyddiwr.

Cynnal Is-bwyllgor Cyllid yn y Llyfrgell Rhydd ar Nos Fawrth Ionawr 21, 2025 i awgrymu praesept ac i adolygu y Gyllideb 2024-2025. Ac i

ystyried ceisiadau am gyfraniadau ariannol. Aelodau yw Ywain Myfyr, Bob Gunton, John Cadwaladr, Jessica John, Dyfrig Siencyn.

**C.71.2024-2025 SESIWN RHANNU GWYBODAETH AC ADRODDIADAU**

**1. <u>Adroddiadau aelodau'r Cyngor Tref</u>**

i) **Y Cynghorydd Ywain Myfyr – Maer**
Gai ddymuno Blwyddyn Newydd Dd ai chi gyd gan obeithio y bydd 2025 yn flwyddyn dda i Ddolgellau. Hyderaf eich bod wedi cael amser braf a chyfle i ymlacio a goffwyso ychydig dros gyfnod y Nadolig.

**Goleuadau Nadolig**
Mae sawl un wedi cysylltu i ddweud pa mor brydferth oedd ein goleuadau Nadolig unwaith eto eleni. Nododd un neu ddau eu bod wedi teithio'n arbennig i'r dref i'w gweld. Mae ein dyled yn fawr, fel Cyngor, i ymdrechion Cynghorydd Bob Gunton. Mae goleuadau Nadolig Dolgellau, oedd yn destun hwyl rai blynyddoedd yn ôl, bellach yn destun eiddigedd gan sawl tref arall.
Wrth i ni fel Cyngor wneud yr ymdrech mae busnesau'r dref yn ein dilyn ac mae'r cyfan yn dod at ei gilydd i wneud ein tref werth ei gweld.

**Bore Coffi**
Cefais wahoddiad i fore coffi yn yr Orsaf Dân cyn y Nadolig. Roedd yn braf gweld myfyrwyr o Goleg Meirion Dwyfor a phlant leiaf Ysgol Bro Idris yn bresennol.

**Draeniau**
Pan darodd storm Bert a Darragh rai wythnosau'n ôl gwelwyd traeniau'r dref yn cael eu profi i'r eithaf. Roedd dŵr yn gorlifo ar hyd y strydoedd mewn sawl rhan o'r dref. Cysylltwyd efo'r Cyngor sir ar sawl achlysur yn mynd yn ôl misoedd. Rwy'n deal bod ateb wedi dod o'r diwedd ond mae'r dreaniau yn dal yn llawn yn disgwyl am y storm nesaf. Rydyn ni bellach yn aros am y storm nesaf ac mae'r draeniau'n dal yn llawn ac os rhywbeth yn waeth.

**Cymdeithasau**
Fel tref gallwn ymfalchio mewn dwsinau o glybiau, cymdeithasau a mudiadau sy'n gweithredu o fewn y dref. Ga'i awgrymu ein bod yn ffurfio rhestr o'r holl grwpiau yma efo'u manylion cyswllt er mwyn ei gynnwys ar dudalen ar wefan y Cyngor.

Gallem ofyn i grŵpiau trwy Facebook am Enw; disgrifiad byr gan gynnwys noson cyfarfod a chyswllt.

**Llwybr Penybanc**

**Fan ar y Lawnt**

Yn cynnig ystyriaeth i sefydlu tudalen newydd ar wefan y Cyngor i hysbysu'r cyhoedd o ddigwyddiadau yn y dref ynghyd a manylion cyswllt mudiadau lleol. **Cytunwyd i drafod y mater yng nghyfarfod mis Chwefror 2025 y Cyngor.**

ii) **Y Cynghorydd Bob Gunton** - wedi canolbwyntio ar waith goleuadau Nadolig am y cyfnod presennol gyda rhai o'r goleuadau pellach i lawr, y gweddill i ddod lawr yn fuan. Yn cynnig ystyriaeth ar gyfer cyllideb ar gyfer goleuadau Nadolig i'r Llyfrgell Rydd ar gyfer 2025 - 2026?
**Yn pryderu ynghylch a posibilrwydd o golli hawl i deuloedd golli 1 x awr o parcio am ddim ar gyfer cludo eu plant i'r Ysgol drwy cynllun presennol Cyngor Gwynedd. Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn i ymholi.**
Mae llinellau melyn bellach yn ôl wrth gyffordd Ffordd y Gader a Ffordd Bodlondeb.

iii) **Y Cynghorydd Nia Evans** - gwaith 'Lle yn y Dref' yn parhau i fynd o nerth i nerth. Clwb Cawl nawr yn weithredol yn y Llyfrgell Rhydd. Tudalen newydd bellach ar Facebook.
**Cynllun gofeb Llyn Penmaen yn symud ymlaen**.
**Penderfynwyd**: Derbyn y wybodaeth a diolchiadau i'r Cynghorydd Nia Evans.

iv) **Y Cynghorydd Jo Checkley -** wedi mynychu cyfarfod ynglŷn â Safle Coed y Brenin, holl staff y ganolfan am gael eu diswyddo, y teithiau seiclo am barhau yn ol bob son. Cwynion o bryder wedi ei dderbyn ynghylch a gwasanaeth meddygfa'r Dref - hyn wedi ei gyfeirio at sylw Aeolod o'r Senedd, Mabon ap Gwynfor. Toiledau cyhoeddus y Marian - dim seti ar rhai o'r toiledau - **Y Clerc i gysylltu â Chyngor Gwynedd**
**Penderfynwyd**: Derbyn y wybodaeth

v) **Y Cynghorydd John Cadwaladr** - wedi mynychu cyfarfod o Ymddiriedolaeth Dr Daniel Williams ar 09.12.2024 a hefyd wedi bod yn 'Sion Corn' gyda'r clwb Rotari. Gwaith o glirio dail ar hyd Ffordd Pencefn wedi ei gwblhau gan Gyngor Gwynedd.

vi) **Y Cynghorydd Branwen Rhys Dafydd** - gwaith casglu sbwriel yn y Parc. Dim set ar gael yn y Parc ar gyfer 'zipline'. Tudalen y Parc wedi ei ddiweddaru ar Facebook.

**2. Adroddiadau Cynghorwyr Gwynedd**

**Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn**
Wedi cyfarfod ac Elin Williams – Uned Adfywio. Yn cytuno i gyfarfod a'r Cyngor Tref yn eu cyfarfod Chwefror 2025. Cynllun adfywio canol y dref am gael ei gyhoeddi yn fuan. Trafodaethau am ddyfodol Partneriaeth y dref ar y gweill.
Arweinydd newydd a Chabinet newydd wedi ei benodi gan Gyngor Gwynedd. Trafodaethau am gael eu cynnal ar 09.01.2025 parthed cyllideb 2025-2026. Setliad o 3.2% wedi ei dderbyn oddi wrth Lywodraeth Cymru. Y setliad isaf yng Nghymru. £8miliwn o fwlch yn y gyllideb 2025-2026. Yn pwysleisio blaenoriaeth o gefnogi ac adfywio canol y dref.

**C.72.2024-2025 GOHEBIAETH**

Dim i'w adrodd

**C.73.2024-2025 CYNLLUNIO**

Dim ceisiadau cynllunio swyddogol wedi ei dderbyn. Gohebiaeth wedi ei dderbyn oddi wrth drigolyn yn ardal Llwyn View. Dim cais wedi ei

dderbyn oddi wrth y Parc Cenedlaethol ar hyn o bryd oherwydd disgwyliadau am fwy o wybodaeth / atebion oddi wrth yr ymgeiswyr.